

GUIDE  
DOGS



Cymru

Modiwl 3

# Beth yw'r gwahaniaeth



## Cynllun Gwers

### Dolenni Cwricwlwm

Cymraeg, Saesneg, Y Byd o'n Cwmpas, Llythrennedd

#### Nod:

Deall y prif wahaniaethau rhwng ci anwes a chi gwaith.

#### Amcanion:

- Deall bod ci tywys yn gi gwaith.
- Deall fod yna bethau tebyg yn ogystal â phethau gwahanol rhwng ci anwes a chi gwaith.

#### Deilliannau Dysgu:

Bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu cofio rhai pethau sydd yn debyg ac yn wahanol rhwng ci tywys a chi anwes. Bydd rhai yn gallu esbonio'n gryno beth i'w wneud wrth gwrdd â chi tywys sy'n gweithio. Bydd eraill yn canfod rhagor o wybodaeth a nodweddion gwahanol fridiau o gŵn a'u haddasrwydd fel ci anwes neu fel ci tywys.

#### Nodiadau Athro/Arweinydd:

Ceir amrywiol fideos ar ein sianel You Tube; Guide Dogs UK.

#### Adnoddau:

Gweithgaredd Adnoddau – Ci tywys/ci anwes

Copi o "Ein Bridiau (cŵn tywys)/Our (guide dog) Breeds"

#### Geirfa Allweddol:

Harnais, cyfrifol, ci gwaith, bridiau, sawdl

## Cyflwyniad

# Gofynnwch i'r plant godi eu dwylo os oes ci anwes ganddynt.

### Gofynnwch i'r plant hynny:

- Pa fath o bethau ydyn nhw'n hoffi eu gwneud gyda'u ci anwes?
- Beth yw hoff degan eu ci anwes?
- Beth yw hoff gêm eu ci anwes?
- Pa fwydydd ydy'r ci anwes yn hoffi bwyta?
- A yw eu ci wedi cael unrhyw hyfforddiant ffurfiol ac wedi bod i wersi hyfforddi cŵn bach?
- Sut ymddygiad sydd gan eu cŵn anwes? Oes yna unrhyw beth yr hoffent ei newid am y ffordd mae eu cŵn yn bihafio?
- Beth mae bod yn berchennog cyfrifol ar gi yn ei olygu?
- Sut mae eu cŵn yn ymateb i anifeiliaid eraill gan gynnwys cŵn eraill?

Dangoswch y daflen i'r plant sy'n dangos y bridiau gwahanol o gŵn tywys (Ein Bridiau). Gofynnwch i'r plant godi eu llaw os yw eu cŵn yn un o'r bridiau hyn.

Gallwch ofyn hefyd a yw unrhyw un o'r plant yn adnabod unrhyw un yn ei deulu sydd wedi hyfforddi ci tywys bach ifanc. Mae'n bosibl fod yna rywun sy'n adnabod rhywun sydd â chi tywys. Os felly, gofynnwch a fyddai'n hoffi rhannu ei brofiadau.

## Gweithgaredd Taflen Adnoddau

### Gwahaniaethau rhwng cŵn anwes a chŵn gwaith

Atgoffwch y plant am y ffeithiau allweddol roedden nhw wedi eu dysgu yn y wers flaenorol ynghylch sut mae cŵn tywys yn cael eu hyfforddi. Dosbarthwch y taflenni adnoddau ac esboniwch er bod rhai cŵn yn edrych yn debyg iawn i'w gilydd, eu bod nhw o'r un brîd ac yn mwynhau'r un gweithgareddau, mae yna rai gwahaniaethau eithaf penodol yr ydych am chwilio amdanynt nawr. Ceir tri phennawd i'r gweithgaredd hwn. Darllenwch bob datganiad a thrafod cyn tynnu llinell at y llun cywir.

**Ci anwes** – cerdded wrth y sawdl, weithiau'n rhedeg ar ôl wiwerod a chathod.

**Ci tywys** – gall fynd i mewn i dai bwyta, mae'n ymddwyn yn dawel ym mhob sefyllfa, mae'n gwisgo harnais a bib.

**Y ddau** – hoffi mynd am dro, yn gallu rhedeg yn rhydd, yn ffyddlon ac yn gariadus.

## Syniad Gweithgaredd 1

### Labeli

Paratowch daflen syml sy'n esbonio'r gwahaniaethau rhwng ci anwes a chi tywys. Dylai plant ddefnyddio labeli a brawddegau byr i ddisgrifio'r gwahaniaethau. Mewn blwch ar waelod y daflen dylen nhw ddisgrifio'r pethau tebyg e.e. mae'r ddau yn hoffi...

## Syniad Gweithgaredd 2

### Ymchwilio bridiau cŵn

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a gofyn i bob grŵp ganfod gwybodaeth am frîd penodol o gi anwes, yn cynnwys Labrador, Adargi Euraid a Chi Bugail Almaenig. Gwnewch yn siŵr fod pob grŵp yn edrych ar frîd gwahanol. Gallan nhw ddefnyddio'r we neu lyfrau adnoddau i ganfod y wybodaeth sylfaenol e.e. maint, lliw, hyd oes, pethau maen nhw'n hoffi eu gwneud, unrhyw nodweddion neu ymddygiad eraill. Cofnodwch y wybodaeth yn daclus a chynnwys llun os yw'n bosibl.

## Syniad Gweithgaredd 3

### Arddangosfa ffotos cŵn anwes

Gofynnwch i blant sydd â chŵn anwes i ddod â ffoto o'r ci i'w osod fel rhan o'r arddangosfa. Gallai plant heb gi anwes ddewis ci tywys yn lle. Gall y plant un ai baratoi sgwrs fer am eu cŵn neu ddod â'r wybodaeth berthnasol yn cynnwys enw, brîd, lliw a maint. Dylai'r plentyn sôn am y pethau mae'n hoffi eu gwneud, hoff gemau ac unrhyw arferion arbennig sydd ganddynt. Gwneud arddangosfa ddosbarth.

## Syniad Gweithgaredd 4

### Trafodaeth

**Cynhaliwch drafodaeth ddosbarth am yr hyn ddylech ei wneud os fyddwch yn gweld person â chi tywys, gallai'r atebion gynnwys:**

- Gofynnwch i'r perchennog bob tro cyn cyffwrdd ag unrhyw gi, ci gwaith neu gi tywys.
- Os fyddwch yn cwrdd â pherson sydd â chi tywys, siaradwch â'r person yn gyntaf.
- **Cofiwch** - peidiwch fyth â galw allan, cyffwrdd na bwydo ci tywys sy'n gweithio – rhaid i'r ci ganolbwyntio ar arwain ei berchennog.
- **Cofiwch** - peidiwch fyth â rhoi pêl i gi tywys i chwarae ag e achos galli ysgogi ei reddf hela.
- Cadwch eich ci anwes draw o'r ci tywys pan fydd yn arwain ei berchennog achos rhaid iddo ganolbwyntio ac nid yw'n cael chwarae.

## Crynswth

### Cyngor

Rhannwch y pethau sy'n debyg ac yn wahanol ymhlith eich gilydd. Yna gofynnwch i'r plant esbonio beth ddylen nhw ei wneud os fyddan nhw'n cwrdd â chi gwaith, sut ddylen nhw ymddwyn a pha gyngor fydden nhw'n ei roi i aelod o'u teulu.

## Gweithgaredd Cartref

### Taflen Tips

Esboniwch eich bod am i'r plant baratoi taflen tips yn seiliedig ar y wybodaeth maen nhw wedi ei dysgu heddiw er mwyn esbonio i bobl beth ddylen nhw ei wneud a beth na ddylen nhw ei wneud wrth gwrdd â chi sy'n gweithio pan fyddan nhw o gwmpas y lle. Gofynnwch iddyn nhw gadw'r tips yn syml, defnyddio brawddegau byr, pwyntiau bwled a phenawdau.